# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

# ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICE BOARD

## Dydd Gwener, 16 Rhagfyr 2016 10.00yb

## COFNODION

| Presennol | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Cyng. Ieuan Williams (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Dyfed Edwards | Cyngor Gwynedd |
| Ffrancon Williams | Cartrefi Cymunedol Cymru – a ran y sector Dai |
| Bethan Russell Williams | Mantell Gwynedd |
| Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Armstrong | Heddlu Gogledd Cymru |
| Sioned Rees | Llywodraeth Cymru |
| Simon Smith | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Sian Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Nia Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cyng. Ann Griffiths | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Emyr Williams | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Siobhan Adams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| Yn Mynychu | |
|---|---|
| Llio Johnson | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Rhian Bayley-Hughes | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Sian Owen | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Shan Morris | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

| Ymddiheuriadau | |
|---|---|
| Ffion Johnstone | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Morag Olsen | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Jerry Hunter | Prifysgol Bangor |
| Andy Jones | Gwasanaeth Prawf Cymru |
| Janet Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Sian Purcell | Medrwn Môn |

| **2. Cofnodion a Materion yn Codi** |
|---|

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2016 yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Diweddariad cofnodion :

3. Llio Johnson wedi diweddaru'r Cylch Gorchwyl.
4. a) Pecynnau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru - Copi terfynol wedi ei chwblhau, Sian Williams i gadarnhau fod yn iawn i ddosbarthu.

   b) Dim diweddariad pellach gan Iechyd
5. Adroddiad Ruth Ellie ddim wedi ei derbyn i'w rhannu.
6. Gweithdy'r Bwrdd wedi ei drefnu ar gyfer 25 Ionawr 2017.
7. a) Ystadegau wedi ei rhannu.
   b) Pennawd newydd wedi ei ychwanegu ar gyfer iaith.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Gweithred: | Sian Williams i gadarnhau pryd y bydd y pecynnau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael i'w rhannu |

| **3. Cylch Gorchwyl** |
|---|

Aelodau'r Bwrdd yn hapus i gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl.

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Gweithred: | Cadw'r Cylch Gorchwyl fel eitem sefydlog ar raglen y BGC i'r dyfodol |

| **4. Cyflwyniad Partneriaid** |
|---|

Cafwyd cyflwyniad gan Simon Smith ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd Ieuan Williams.

Sylwadau:

- Tannau Bwriadol - Nododd Simon fod rhifau yn gostwng. Roedd 1438 tan fwriadol yn flwyddyn 2010/11 wedi ei gostwng i 724 yn flwyddyn 2013/14.
- Annibendod – Effaith enfawr, problemau gweithredol gan gynnwys mynediad, ymddygiad dioddefwr ayyb Dim ffordd o atal pan ar eiddo preifat.

- Ysmygu – Nid yw ysmygu mewn categori risg uchel, ond mae ysmygu gyda ffactorau eraill yn cynnwys alcohol, cyffuriau ayyb yn rhoi mewn categori risg uchel. Nodwyd fod alcohol yn arwyddocaol yn y rhan fwyaf o farwolaethau tân.
- Strategaeth Ataliol - Atal yn well nag iachâd - wedi ail-strwythuro'r gweithlu, y rhan fwyaf o'r gyllideb wedi bod yn mynd at staff ar y rheng flaen yn diffodd tanau felly arian wedi ei gymryd allan o'r rheng flaen a'i roi tuag at atal. Anodd amcangyfrif faint o gyllideb sydd wedi mynd tuag at atal oherwydd bod staff i gyd bellach gyda mewnbwn i'r strategaeth ataliol.
- Peilot ymgysylltu cymunedol ar godymau - Oherwydd bod codymau yn y cartref yn flaenoriaeth isel i'r gwasanaeth ambiwlans mae'r gwasanaeth tân yn rhoi cymorth. Peilot bellach wedi cychwyn yn Sir Ddinbych ym mis Awst 2016 gydag amser presenoldeb o 26 munud. Mae'r peilot hefyd yn cynnwys staff diogelwch cymunedol sydd wedi ei hyfforddi i gynorthwyo pobl gyda chodymau yn y cartref. Erbyn diwedd mis Hydref roedd y gwasanaeth tân wedi ymateb i 100 achos. Cost y peilot yw £200,00 sydd wedi ei ariannu gan yr Awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru gyda'r gyllideb yn dod i ben mis Mawrth 2017.
- Trafodwyd gwahanol brosiectau sydd bellach wedi ei chychwyn ar godymau yn y cartref gyda gwahanol wasanaethau a rhannu gwybodaeth. Trafodwyd y posibilrwydd o ddod a'r gwaith yma at ei gilydd.

## 5. Asesiad Llesiant – Diweddariad

Sesiynau Cyhoeddus bellach wedi ei chwblhau. Nodwyd fod yr asesiad dal yn fyw ar y wefan hyd at 31 Rhagfyr 2016. Diolchodd Llio i'r aelodau am eu help gyda'r sesiynau.

Nododd Llio er bod niferoedd a fynychodd y sesiynau yn isel roeddynt wedi cael sgyrsiau llwyddiannus ac roedd ymateb ar-lein wedi bod yn dda. Hyd at heddiw roedd 683 o holiaduron wedi eu llenwi gyda mwy yn cael eu mewnbynnu pob dydd. Amlinellwyd rhai ardaloedd gyda niferoedd isel wedi llenwi'r holiaduron yn cynnwys : Penllyn a Ffestiniog.

Gobeithir hyrwyddo eto wythnos nesaf trwy gyfryngau cymdeithasol. Gofynnir i'r partneriaid hefyd hyrwyddo.

Sylwadau :

- Llyfrynnau - Cafwyd canmoliaeth gan yr aelodau a'r partneriaid. Nododd Llio fod llyfrynnau dal ar gael os dymunir.
- Cafwyd canmoliaeth i'r ffordd roedd yr asesiad wedi ei drefnu yn cynnwys y sesiynau cyhoeddus, hyrwyddo, llyfrynnau, staff, a strwythur yr ardaloedd. Diolch i bawb am eu gwaith.
- Henoed - Mynegwyd pryder ynglŷn â chasglu barn henoed. Nododd Llio fod y tîm wedi cysylltu gyda 'Age Cymru' ac roeddynt wedi cytuno hyrwyddo.
- Deddf Poblogaeth - Drafft 1af wedi ei chwblhau, yn y broses o greu crynodeb.
- Trafodwyd amserlen ymgynghori. Nododd Llio ei bod yn awyddus i gadw o fewn y 6 wythnos. Cytunwyd i drafod yr amserlen yn y gweithdy mis Ionawr.

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Gweithred: | Amserlen ymgynghori i gael ei chynnwys yn agenda gweithdy mis Ionawr |
| 4 | Gweithred: | Aelodau i gysylltu gyda Llio os dymunir llyfrynnau |

## 6. Gweithdy Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mis Ionawr

Trafodwyd agenda'r gweithdy. Cytunwyd y isod :

- Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwynt agenda rhif 4. Cytunwyd ei fod yn gynamserol trafod hyn yn fanwl ar y pwynt yma.
- Gweithdy Llywodraeth Cymru - Nodwyd fod Gweithdy wedi ei drefnu wythnos nesaf. Cytunodd yr aelodau i fwydo yn ôl i weithdy'r Bwrdd mis Ionawr.

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Gweithred: | Llio i newid pwynt rhif 4 ar yr agenda |

## 7. Gohebiaeth

Cytunwyd i gydnabod y gwahanol ohebiaeth ac ymateb i'r gwahanol geisiadau yn nodi ei bod yn gynamserol i ddod i'r cyfarfodydd o'r Bwrdd ar hyn o bryd.

Cynllun 2025 - cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r gwaith sydd yn digwydd gan y grŵp yma. Cytunwyd fod angen trafod hyn ymhellach, nodwyd fod Ffrancon Williams yn aelod o'r grŵp ac fe all rannu yn fwy manwl mewn cyfarfod yn y dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Gweithred: | Cydnabod ac ymateb i'r gohebiaeth |

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Nodwyd manylion y trefniadau a wnaed i gynnal gweithdy'r Bwrdd ar y 25ain o Ionawr 2017 am 9.30 yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Bydd cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 24ain Chwefror , 2017 am 10yb yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm